

CYNLLUNIO GWEITHREDU SFP

Gwireddu'r weledigaeth



Ysgrifennwyd gan Sarah Davies, Food Matters

Chwefror 2020

Cynnwys

1 Cyflwyniad	3
2. Fframwaith a Strwythur Cynllunio	3
2.1 Damcaniaeth Newid	4
3. Dechrau Arni.....	4
4. Cael Trefn ar Bethau.....	5
4.1 Gweithgorau thematig	5
4.2 Arweinwyr a chyfranwyr gweithgorau	5
4.3 Cwrdd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol ac ymgynghori	5
4.4 Templed cynllunio	5
5. Blaenoriaethu	6
5.1 Adeiladu ar sail beth sy'n bod yn barod.....	6
5.2 Peidio â cheisio gwneud pob dim ar unwaith	6
5.3 Gwneud y pethau haws yn gyntaf.....	6
5.4 Tystiolaeth o'r effaith	6
5.5 Goblygiadau o ran adnoddau	6
6. Ymgynghori	7
7. Mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu a'i Ddefnyddio	7
7.1 Craffu.....	7
7.2 Cynnydd	7
7.3 Cyfathrebu.....	7
7.4 Adolygu	8
7.5 Diweddarau	8
Atodiad 1	9
Enghraifft o ddefnyddio'r Fframwaith Cynllunio Gweithredu	9
Atodiad 2:.....	10
Templed Cynllunio Gweithredu.....	10

1 Cyflwyniad

Cynllunio gweithredu yw'r broses o gynllunio beth sydd angen ei wneud, pa bryd, gan bwy a pha adnoddau sydd eu hangen i'w wneud. Yn eich cynllun gweithredu ysgrifenedig, dylech nodi'r newidiadau rydych am eu gwneud, y camau a gymerwch i wneud y newidiadau hyn, pwy fydd yn cymryd rhan, pa bryd y byddan nhw'n gwneud hynny a pha adnoddau fydd eu hangen. Bydd y canllaw byr hwn yn eich helpu i strwythuro'r ffordd rydych yn creu'ch cynllun gweithredu ac i sicrhau ei fod yn ganlyniad i broses effeithiol sy'n cynnwys rhanddeiliaid.

2. Fframwaith a Strwythur Cynllunio

Nid yw'r broses cynllunio gweithredu yn gallu digwydd mewn gwagle. Mae angen iddi ddigwydd o fewn fframwaith strategol i'ch helpu i strwythuro a threfnu beth rydych yn ei wneud. Os nad oes fframwaith strategol, fyddwch chi ddim yn gwybod i ble rydych yn mynd na pham rydych yn mynd yno. Os na fydd y broses cynllunio gweithredu yn digwydd o fewn fframwaith strategol, fe all fod braidd yn ddiamcan. Gallech chi gyflawni rhywbeth buddiol neu efallai ddim!

Er bod rhai gwahaniaethau yn y ffordd o ddiffinio'r dimensiynau, mae'r fframwaith sylfaenol fel y mae wedi'i ddangos isod:

GWELEDIGAETH

- Beth yw'r weledigaeth gyffredinol rydych chi'n helpu i'w gwireddu?
- Beth rydych chi'n ceisio ei gyflawni?

Drwy gyflawni'r NODAU neu sicrhau'r CANLYNIADAU, byddwch yn helpu i wireddu'r WELEDIGAETH

NODAU neu GANLYNIADAU

- Beth rydych am ei gyflawni wrth roi sylw i faterion penodol?
- Beth fydd yn cael ei gyflawni drwy'ch ymdrechion?
- Ble rydych chi am gyrraedd ym mhob un o'r materion/themâu?
- Beth yw pwyntiau terfyn eich gwaith mewn perthynas â'r materion/themâu?

Drwy gwrdd â'r AMCANION, byddwch yn helpu i gyflawni'r NODAU / CANLYNIADAU

AMCANION

- Pa dargedau sydd angen eu taro er mwyn cyflawni'r nodau / canlyniadau?
- Pa amcanion y mae angen cwrdd â nhw er mwyn helpu i gyflawni'r nod?
- Beth sydd angen ei roi yn ei le o ran prosesau, strwythurau, gallu etc.?

Mae cymryd y CAMAU GWEITHREDU yn arwain at gwrdd â'r AMCANION / taro'r targedau

CAMAU GWEITHREDU neu WEITHGAREDDAU

- Beth sydd angen ei wneud i gwrdd â'r amcanion?
- Pwy sydd i wneud beth?
- Pa gamau ymarferol sydd angen eu cymryd?

MATERION

- Beth yw'r materion rydych chi'n ceisio delio â nhw?
- Beth yw'r heriau a'r problemau rydych yn bwriadu delio â nhw ac rydych am ymateb iddyn nhw?

Delio â'r MATERION yw'r pwrpas wrth gymryd y CAMAU GWEITHREDU, cwrdd â'r AMCANION, cyflawni'r NODAU a gwireddu'r WELEDIGAETH

Mae enghraifft o'r ffordd y mae hyn yn gweithio'n ymarferol wedi'i dangos yn **Atodiad 1**.

2.1 Damcaniaeth Newid

Yn ogystal â chynllunio gweithredu, mae rhai pobl yn ei chael yn ddefnyddiol ystyried eu gwaith yng nghyd-destun damcaniaeth newid. Mae hwn yn ddiagram ac yn esboniad sy'n dangos y ffordd rydych chi'n credu y bydd y newid arfaethedig yn digwydd. Mae'n disgrifio beth rydych yn ei wneud, pam rydych yn ei wneud, yr effaith rydych am ei chael a sut rydych yn bwriadu cael yr effaith honno. Yn gyntaf, byddwch yn nodi'r mater neu'r broblem rydych yn ceisio ei datrys ac yn edrych ar y camau y byddwch yn eu cymryd yn ogystal â'r prif ragdybiaethau ar bob cam, a hefyd yn nodi'r dangosyddion llwyddiant. Gall hyn fod yn ffordd fuddiol i ganolbwyntio ar eich nod tymor hir wrth weithredu a bydd yn help mawr wrth fonitro a gwerthuso'ch gwaith. Mae'r [Canllaw Damcaniaeth Newid](#) hwn gan NESTA yn rhoi esboniad pellach o'r dull hwn ac yn darparu enghreifftiau a chynghorion.

3. Dechrau Arni

Bydd y ffordd o fynd ati i gynllunio gweithredu yn dibynnu'n rhannol ar y pwynt rydych wedi'i gyrraedd yn barod.

Os nad ydych chi eisoes wedi pennu gweledigaeth glir a set o nodau neu ganlyniadau ar gyfer eich partneriaeth fwyd, yna bydd angen i chi ddechrau drwy feddwl yn strategol a chreu gweledigaeth. Drwy gynnwys rhanddeiliaid lleol o bob math yn y broses creu gweledigaeth, byddwch yn gallu sefydlu fframwaith cynllunio penodol ar gyfer eich lleoliad. Bydd hyn yn creu ymdeimlad cryf o berchnogaeth ar y fframwaith hefyd, ac mae hyn yn bwysig.

Os oes angen cynnwys llawer o fathau o randdeiliaid, yna gallech ystyried cynnal digwyddiad tebyg i uwchgynhadledd. Os bydd y weledigaeth yn cael ei chreu gan grŵp llywio llai, yna gallech wneud hynny drwy gynnal gweithdy yn lle hynny.

Prif bwrpas y digwyddiad creu gweledigaeth yw:

- penderfynu amcan y gwaith
- nodi materion i'w hystyried a meysydd gwaith thematig
- edrych ar beth sy'n digwydd yn barod a phwy sy'n ei wneud
- dechrau nodi gweithgorau a sefydliadau arweiniol

Mae'r tîm Rhwydwaith SFP wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol seilio digwyddiadau o'r math hwn ar gyfres o gwestiynau. Gweler ein hadnodd [Uwchgynhadledd Bwyd](#) am ragor o ganllawiau.

Sylwer: os mai grŵp cynrychiadol fydd yn penderfynu ar y fframwaith cynllunio, bydd angen cadarnhau neu ddilysu hyn drwy ymgynghori mwy eang. Bydd hyn hefyd yn hyrwyddo ac yn hwyluso cyfranogi a pherchenogi ehangach.

4. Cael Trefn ar Bethau

Unwaith y byddwch chi wedi pennu gweledigaeth a set o nodau neu ganlyniadau, bydd yn bryd i chi symud ymlaen at y gwaith mwy manwl o gynllunio gweithredu. Dyma pryd y byddwch yn dechrau penderfynu ar y camau penodol y bydd pobl yn ymrwymo i'w cymryd er mwyn cyflawni'ch nodau neu ganlyniadau.

4.1 Gweithgorau thematig

Ffordd dda i symud ymlaen ar gam y cynllunio gweithredu manwl yw cynnwys cyfranogwyr mewn gweithgorau. Efallai y byddwch am drefnu'r gweithgorau hyn ar sail y prif faterion rydych am roi sylw iddynt yn eich partneriaeth fwyd (e.e. yr argyfwng hinsawdd a natur, tlodi bwyd ac iechyd gwael sy'n gysylltiedig â deiet etc.). Fel arall, gallech seilio pob gweithgor ar nod neu ganlyniad penodol. Prif bwrpas eu gwaith fydd penderfynu ar amcanion clir a chamau gweithredu penodol a fydd yn eich helpu i gyflawni pob nod neu ganlyniad.

4.2 Arweinwyr a chyfranwyr gweithgorau

Efallai y bydd o gymorth i chi bennu person arweiniol ar gyfer pob thema. Byddai'r rôl hon yn gallu para am gyfnod penodol yn ystod y cam cynllunio gweithredu yn unig. Rôl y person hwn fydd galw cyfarfodydd o'r gweithgor cynllunio gweithredu ar gyfer ei thema, cofnodi a chylchredeg drafft o'r camau gweithredu i'r holl gyfranogwyr, trefnu rhagor o gyfarfodydd i ganfod ffeithiau os bydd angen, ac arwain ar ddrafftio cynllun gweithredu'r thema.

Mae'n debygol y byddwch chi eisoes wedi casglu enwau cyfranogwyr posibl mewn digwyddiadau blaenorol a gynhaliwyd gan y bartneriaeth fwyd ar y cam creu gweledigaeth, neu'ch bod yn gwybod am y bobl allweddol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r mater penodol. Hefyd gallech wahodd pobl sydd ag arbenigedd penodol i gyfrannu ar y cam cynllunio gweithredu.

4.3 Cwrdd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol ac ymgynghori

Bydd y rhan fwyaf o weithgorau'n dod ynghyd i gynnal gweithdy cynllunio gweithredu. Mae enghraifft o fformat gweithdy yn ein hadnodd [Gweithdy Cynllunio Gweithredu](#). Fodd bynnag, os yw'ch adnoddau'n brin, mae llawer y gellir ei gyflawni ar-lein drwy rannu templedi cynllunio gweithredu gan ddefnyddio rhaglen fel Google Docs. Fel hyn, bydd yr holl gyfranwyr yn gallu golygu'r ddogfen mewn amser real a datblygu drafft o'r cynllun gweithredu ar y cyd. Efallai mai'r dull mwyaf cynhyrchiol fydd cyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ymgynghori pellach ar-lein ar ôl hynny.

4.4 Templed cynllunio

Os oes nifer o weithgorau cynllunio gweithredu ar waith, gallai fod yn fanteisiol defnyddio templed cynllunio gweithredu fel sylfaen ar gyfer datblygu'ch cynllun gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn eich dull o weithio. Efallai y byddwch am ddefnyddio templed fel yr un sydd wedi'i ddangos yn Atodiad 2 a rhoi cyfarwyddyd i arweinwyr y gweithgorau ar ei ddefnyddio. Bydd yn bwysig cofnodi'r broses cynllunio gweithredu gan ddangos yn glir y cysylltiad rhwng y camau gweithredu manwl a gweledigaeth a phwrpas cyffredinol y bartneriaeth fwyd. Bydd y gwaith hwn i gyd wedi'i seilio ar y fframwaith cynllunio gweithredu sydd wedi'i ddisgrifio yn adran 2.

5. Blaenoriaethu

O gofio pa mor eang yw'r agenda ar fwyd cynaliadwy a pha mor amrywiol yw'r rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig, mae'n hawdd cael eich llethu gan nifer yr amcanion a'r camau gweithredu posibl. Gellir wynebu her wrth geisio penderfynu ble i ddechrau, beth i'w gynnwys, a beth fydd eich blaenoriaethau.

5.1 Adeiladu ar sail beth sy'n bod yn barod

Does dim angen i chi ddechrau ar ddalen wag. Mae'n debygol bod llawer yn digwydd yn barod yn eich ardal sy'n helpu i gyflawni'ch nodau neu ganlyniadau. Wrth ddechrau arni, gallai fod yn beth da nodi'r gweithgarwch presennol ac unrhyw weithgarwch sydd eisoes yn yr arfaeth.

5.2 Peidio â cheisio gwneud pob dim ar unwaith

Ceisiwch fod yn ymarferol o ran beth ellir ei gyflawni. Efallai y bydd y bartneriaeth am roi blaenoriaeth i un neu ddwy o themâu wrth ddechrau gweithredu a rhoi sylw llai manwl i'r meysydd eraill. Wrth gwrs, bydd angen newidiadau eithaf mawr ym mhob maes i drawsnewid y diwylliant bwyd, ond ni fydd y rhain yn digwydd dros nos. Mae rhai partneriaethau bwyd wedi penderfynu gwneud eu cynllun gweithredu cyntaf yn un cymharol hawdd ei gyflawni heb wynebu gormod o heriau gwleidyddol. Unwaith y byddwch chi wedi dechrau codi stêm, gallwch symud ymlaen a mynd i'r afael â meysydd mwy heriol.

5.3 Gwneud y pethau haws yn gyntaf

Gall rhai camau fod yn hawdd eu cymryd a byddant yn galluogi'ch partneriaeth i godi stêm wrth ddechrau ar ei siwrnai. Ar y dechrau, gallech weld bod rhai camau gweithredu a fydd yn cyflawni mwy nag un amcan ac a fydd yn denu cefnogaeth wleidyddol eang. Efallai y bydd rhai camau gweithredu sy'n niwtral o ran cost neu'n creu incwm neu'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol presennol. Mae'r rhain yn lle da i ddechrau.

5.4 Tystiolaeth o'r effaith

Defnyddiwch ein dogfen [Dadlau'r Achos](#) i gael darlun o'r dulliau sy'n effeithiol wrth geisio cyflawni'ch nodau neu ganlyniadau. Mae'r ddogfen hon yn rhestru nifer mawr o astudiaethau achos ac erthyglau academaidd sy'n dangos pa mor effeithiol fydd eich dull o weithredu. Os nad oes ond ychydig o dystiolaeth sy'n dangos bod y cam gweithredu yn effeithiol, gallai hynny fod yn rheswm dros roi llai o flaenoriaeth iddo.

5.5 Goblygiadau o ran adnoddau

Ystyriwch yn ofalus faint o arian, amser ac adnoddau eraill fydd eu hangen i gymryd eich camau gweithredu. Rydym yn awgrymu cynnwys colofn yn eich cynllun gweithredu i ddangos 'yr adnoddau sydd eu hangen'. Os yw'ch camau gweithredu yn gofyn am ddefnydd mawr o adnoddau ac nad oes nemor ddim gobaith codi'r arian neu ddod o hyd i bobl sydd â digon o amser i'w cyflawni, yna efallai y bydd angen eu hailystyried. Yn lle hynny, chwiliwch am gamau gweithredu y gellir eu cyflawni o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael.

6. Ymgynghori

Unwaith y bydd cynlluniau gweithredu drafft wedi'u datblygu ar gyfer pob thema, bydd yn werth ymgynghori arnynt â'r bartneriaeth gyfan. Gellid gwneud hyn drwy gylchredeg y drafft o'r cynllun gweithredu cyffredinol er mwyn cael sylwadau. Neu fel arall, mae rhai partneriaethau bwyd wedi gweld ei bod yn fuddiol trefnu digwyddiad ymgynghori lle bydd aelodau o bob rhan o'r bartneriaeth yn dod ynghyd i drafod y camau gweithredu ymhellach a'u blaenoriaethu.

Pa ffordd bynnag y byddwch yn penderfynu gweithredu, y peth pwysig yw bod y cynllun gweithredu yn ganlyniad i broses gyfranogol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r bartneriaeth gyfan i'r graddau mwyaf posibl.

7. Mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu a'i Ddefnyddio

Os cafwyd proses gyfranogol effeithiol yn cynnwys rhanddeiliaid o bob math, y gobaith yw y byddant yn barod i fabwysiadu'r cynllun gweithredu a'i roi ar waith. Dyma rai ffyrdd i ddefnyddio'ch cynllun gweithredu y gallech chi eu hystyried.

7.1 Craffu

Defnyddiwch eich cynllun gweithredu i graffu ar gyfleoedd newydd. Gofynnwch i chi'ch hunain: a yw'r cyfle hwn yn gyson â'r weledigaeth / nodau ac amcanion? A yw'r cyfle hwn yn helpu i gyflawni'r cynllun gweithredu? Defnyddiwch y cynllun gweithredu fel ffordd i gadw'r bartneriaeth fwyd ar y llwybr cywir. Gallech ystyried hefyd a yw cynigion gan rhanddeiliaid yn helpu i gyflawni'r cynllun gweithredu neu a ydynt yn ei danseilio?

7.2 Cynnydd

Un rheswm hanfodol dros gael cynllun gweithredu yw eich galluogi i fesur a monitro cynnydd ar wireddu'ch gweledigaeth. Mae'n bwysig cynnwys lle yn yr agenda ar gyfer pob cyfarfod o grŵp llywio'r bartneriaeth fwyd lle bydd aelodau'n adrodd ar gynnydd ar gyflawni'r camau gweithredu. Gofalwch fod yr amserlenni (gyda'r dyddiadau cwblhau) yn glir, yn gyflawn, ac yn gyfredol.

A ydych yn cyflawni beth roeddech wedi mynd ati i'w wneud? Os nad ydych, gofynnwch pam. A oes newidiadau y gallech eu gwneud i ddod yn ôl i'r llwybr cywir? Neu a oedd eich amcanion yn rhy uchelgeisiol? A oes ffactorau allanol sydd wedi newid a'i gwneud yn fwy anodd cyflawni'ch nodau?

Gwiriwch weithrediadau craidd eich partneriaeth fwyd. A yw'n addas i gyflawni'r cynllun gweithredu arfaethedig? A oes angen ei chryfhau? A oes angen cydbwyso buddiannau'r rhanddeiliaid?

Os ydych yn gwneud cynnydd da, yna defnyddiwch y cynllun gweithredu i gyfleu'r newyddion da am hynny a dathlu llwyddiant wrth gwblhau tasgau.

7.3 Cyfathrebu

Defnyddiwch eich fframwaith cynllunio gweithredu i roi gwybod i eraill am bwrpas eich partneriaeth fwyd. Pwy sydd ag angen gwybod am eich gweledigaeth / nodau / amcanion a chamau gweithredu arfaethedig? Efallai y byddwch am gyfathrebu â gwahanol gynulleidfaoedd mewn ffyrdd gwahanol gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatiau:

- cynllun gweithredu
- strategaeth
- siarter
- cylch gwaith

www.sustainablefoodplaces.org | Cynllunio Gweithredu SFP | Chwefror 2020

7

Bydd pob un o'r rhain wedi'i seilio ar y fframwaith cynllunio gweithredu a ddangoswyd ar y dechrau.

7.4 Adolygu

Gellir newid cynllun gweithredu ar unrhyw adeg. Dylech ei gadw o fewn golwg, ei ddefnyddio a'i adolygu'n rheolaidd. Gofynnwch i chi'ch hunain: A ydym yn gwneud beth roeddem wedi bwriadu ei wneud? A ydym yn ei wneud yn dda? A yw'r pethau rydym yn eu gwneud yn hyrwyddo ein gweledigaeth ar gyfer y system fwyd?

7.5 Diweddarau

Fel arfer, ni fydd yn syniad da mynd ati i gynllunio camau gweithredu manwl ar gyfer mwy nag un flwyddyn ymlaen llaw. Byddai newidiadau yn y cyd-destun, y strategaeth neu'r rhagdybiaethau yn gallu galw am newidiadau yn y pethau rydych yn eu gwneud yn y tymor hwy. Er y byddai'ch gweledigaeth, eich nodau neu ganlyniadau yn gallu sefyll prawf amser, mae'n bosibl y bydd angen diweddarau amcanion a chamau gweithredu yn rheolaidd.

Atodiad 1

Enghraifft o ddefnyddio'r Fframwaith Cynllunio Gweithredu

Ymgyrch Pysgod Cynaliadwy

GWELEDIGAETH	Pysgodfa fyd-eang gynaliadwy	Nod cyffredinol – ble rydym am gyrraedd yn y pen draw
CANLYNIAD	Pobl yn bwyta pysgod sydd wedi'u dal mewn ffordd gynaliadwy	Cyflwr neu sefyllfa a gyrraeddir er mwyn gwireddu'r WELEDIGAETH
	DANGOSYDD CANLYNIAD – Cynnydd yn nifer y bobl sy'n bwyta pysgod sydd wedi'u dal mewn ffordd gynaliadwy.	<i>Drwy fesur hyn, dangosir bod y gweithgareddau'n cael effaith.</i>
AMCAN	Newid polisi caffael sefydliad penodol fel ei fod yn cynnwys pysgod sydd wedi'u dal mewn ffordd gynaliadwy yn unig	Amcan sydd angen ei gyflawni neu newid sy'n digwydd fel y bydd y CANLYNIAD wedi'i gyflawni
GWEITHGARWCH	Cwrdd â'r Pennaeth Caffael a thrafod materion yr ymgyrch	Cam gweithredu a gymerir fel y bydd yr AMCAN wedi'i gyflawni.

Atodiad 2:

Templed Cynllunio Gweithredu

Amcan:			
Gweithgareddau	Cyfnod	Pwy sy'n gyfrifol	Adnoddau sydd eu hangen